

**Ein cyf / Our ref:**

**Eich cyf / Your ref:**

**Dyddiad / Date:** 4<sup>th</sup> June 2021

Annwyl Glaf,

### **Hwb Iechyd Cybi**

Fel claf yn Hwb Iechyd Cybi roeddem eisiau cysylltu â chi'n bersonol i'ch gwneud yn ymwybodol o'r gwaith parhaus sy'n mynd rhagddo i wella'r profiad cyffredinol a mynediad at ein gwasanaethau.

Rydym wedi derbyn pryderon gan nifer o'n cleifion ac rydym yn defnyddio'r rhain i dargedu'r gwelliannau sydd eu hangen yn y feddygfa.

Yn ystod mis Mawrth 2020, bu i ni uno Meddygfa Longford a Meddygfa Cambria sydd bellach yn cael ei alw'n Hwb Iechyd Cybi. Bu i ni uno'r meddygfeydd i'n helpu i ymateb i'r pandemig a galluogi'r staff clinigol cyfunol i weld cleifion y ddwy feddygfa. Nid yw hyn yn newid y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn ond gallwch gael eich gweld ar gyfer eich apwyntiad yn unrhyw un o'r meddygfeydd hyn.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddenu Meddygon Teulu i'n hardal, fel y gallwch ddeall mae recriwtio Meddygon Teulu yn anodd yn genedlaethol ac nid yw hyn yn unigryw i Gaerdybi na gweddill Gogledd Cymru. Fodd bynnag, rydym yn falch o gadarnhau y bydd dau Feddyg Teulu newydd yn dechrau gyda ni ym mis Awst gyda thrydydd Meddyg Teulu yn dechrau ym mis Ionawr 2022. Byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i recriwtio mwy hefyd. Rydym yn parhau i gael cefnogaeth Meddygon Teulu locwm rheolaidd sy'n adnabod yr ardal a'r cleifion.

Mae'n bwysig cofio nad oes angen i chi weld Meddyg Teulu bob amser pan fyddwch yn gofyn am apwyntiad gyda ni. Efallai byddwch yn cael cynnig apwyntiad gydag un o'r Uwch Ymarferwyr medrus iawn sy'n brofiadol i asesu cleifion, rhoi diagnosis a darparu triniaeth iddynt yn cynnwys rhagnodi. Gellir ymgymryd ag Ymgynghoriadau yn ddiogel ac effeithiol dros y ffôn hefyd lle maent yn briodol yn glinigol. Mae'r daflen amgaeedig yn amlinellu rhai o'r rolau a'r gwaith arbennig y gallant ei wneud.

Ar gyfer unrhyw bresgripsiynau llym neu frys a roddwyd yn ystod ymgynghoriad o bell, byddwch yn cael gwybod o ba safle y bydd angen i chi gasglu eich presgripsiwn.

Pan fyddwch yn archebu ail bresgripsiwn, yn ddelfrydol gofynnwn i chi ganiatáu pum diwrnod gwaith ond yn ddim llai na tri diwrnod gwaith er mwyn i'ch cais am bresgripsiwn gael ei brosesu. Ein dull dewisol i chi ofyn am ail bresgripsiwn yw drwy'r "Gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein" sy'n eich galluogi i archebu eich ail bresgripsiynau yn gyfleus ar y rhyngwyd. Am fwy o wybodaeth am y Gwasanaeth Fy Iechyd Ar-lein ewch i <https://www.myhealthonline-inps2.wales.nhs.uk/welcome>, gofynnwch i'r derbynnydd yn y feddygfa am ffurflen gofrestru. Mae'n bwysig nodi mai dim ond eitemau a restrir yn benodol ar gyfer ail feddyginiaeth y gellir eu cael drwy'r ffordd hon. Ar gyfer pob eitem arall, hyd yn oed os ydynt wedi cael eu rhagnodi yn y gorffennol, bydd angen i chi drafod eich cais gyda meddyg. Gellir postio ceisiadau trwy'r blwch postio neu eu hanfon drwy'r post hefyd.

Gallwch enwebu fferyllfa gymunedol yn yr ardal i gasglu eich presgripsiwn ar eich rhan (dylech gynnwys enw'r fferyllfa ar eich cais). Fel arall, os byddwch yn darparu amlen â stamp wedi'i stampio, byddwn yn postio eich presgripsiwn atoch. Casglwch eich presgripsiwn o'r Practis Meddyg teulu dim ond os yw'n hanfodol. Fel arall, byddwn yn postio eich presgripsiwn i chi os byddwch yn cynnwys amlen gyda chyfeiriad a stamp arni. Sylwch am resymau'n ymwneud â rheoliadau diogelwch cenedlaethol nad ydym yn caniatáu i staff y feddygfa dderbyn ceisiadau am ail bresgripsiynau dros y ffôn i osgoi camgymeriadau.

Rydym wedi comisiynu system ffôn newydd yn ddiweddar, er mwyn ei gwneud yn haws i chi gysylltu â'r feddygfa. Yn ystod mis Mai, gwelsom gynnydd mawr o ran cyswllt â chleifion. Mae meddygfeydd eraill wedi profi hyn hefyd wrth i ni ddod allan o gyfnod clo Covid ac rydym yn gweithio'n galed i wella'r system er mwyn ei gwneud yn haws cael ateb y tro cyntaf y byddwch yn cysylltu.

Gofynnwn gyda pharch i chi adael unrhyw ymholiadau ar wahân i drefnu apwyntiad tan yn hwyrach yn y dydd oherwydd y lefel uchel o alwadau rhwng 8.00am a 10.00am ac os bydd unrhyw ymholiadau ynghylch canlyniadau gwaed, presgripsiynau, ymholiadau gweinyddol fel nodiadau salwch, gellid gwneud y rhain ar ôl 10.00am a chyn 4.00pm.

Mae eConsult yn wasanaeth ar-lein i gleifion yn ystod oriau agor arferol y feddygfa rhwng 08:00 a 18:30. Gall unrhyw un o'n cleifion sydd â mynediad at y rhyngwyd ddefnyddio eConsult gan nodi eu symptomau ac unrhyw bryderon gofal iechyd eraill. Mae'r system yn helpu cleifion trwy weithio fel system frysbenneu a gall hysbysu cleifion o wasanaethau eraill y gallant fanteisio arnynt fel y fferyllfa gymunedol. Os nad oes gwasanaeth lleol arall sy'n addas ar gyfer y symptomau sydd gennych, bydd eConsult yn creu adroddiad ar gyfer y feddygfa a bydd clinigwr priodol yn y feddygfa'n cysylltu â chi i'ch helpu gyda'ch angen gofal iechyd, gallai hyn fod dros y ffôn neu e-bost. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, gellir cael mynediad i eConsult yn ystod oriau agor craidd y Feddygfa yn unol â meddygfeydd lleol eraill. Gellir cael mynediad i eConsult trwy ein gwefan yn <https://en.hwbiechyd.co.uk/hwb-iechyd-cybi>

Hoffem atgoffa ein cleifion eich bod yn gallu manteisio ar wasanaethau gerllaw a allai fod yn fwy addas ar gyfer eich cyflwr, fel yr Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Penrhos Stanley neu ewch i'ch fferyllfa gymunedol lleol ar gyfer anhwylderau cyffredin.

Byddwn hefyd yn trefnu sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd dros yr wythnosau sydd i ddod er mwyn casglu eich sylwadau a'ch awgrymiadau at eto. Caiff y rhain eu cyhoeddi'n eang. Os bydd gennych sylwadau neu bryderon ynghylch gwasanaethau, cysylltwch â ni trwy [Enquiries.W94026@wales.nhs.uk](mailto:Enquiries.W94026@wales.nhs.uk) neu trwy ffonio 01407 888456

Yn gywir



**Wyn Thomas,**  
**Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynol**  
**Assistant Area Director Primary Care**

Enc  
Amg.

# Rolau a chyfrifoldebau staff - Hwb Iechyd Cybi

Mae Hwb Iechyd Cybi yn cynnwys ystod o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â'r arbenigedd i'ch helpu chi â'ch anghenion iechyd.

Yn aml y canfyddiad yw bod yn rhaid i gleifion gael eu trin gan feddyg; fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bob amser gan fod meddygon yn cael eu cefnogi gan dîm arbenigol o nyrsys, cynorthwywyr gofal iechyd, ffisiotherapyddion a fferyllwyr.

Isod, eglurir rolau gwahanol staff sy'n gweithio yn Hwb Iechyd Cybi a sut y gallant eich cefnogi i reoli eich iechyd a'ch lles.



## Meddyg Teulu Ymgynghorol

Yn darparu goruchwyliaeth a mentoriaeth i'r holl glinigwyr eraill yn y practis ac yn rhoi cefnogaeth iddynt ar gyflyrau cymhleth. Hefyd yn gweld achosion brys ac yn delio â diagnosis a chynlluniau triniaeth salwch critigol brys.



## Meddyg Teulu

Mae meddygon teulu yn trin holl gyflyrau meddygol cyffredin, arwain ar reoli argyfyngau yn y practis ac yn cyfeirio cleifion i ysbytai a gwasanaethau meddygol eraill i gael triniaeth frys ac arbenigol.



## Tîm Fferylliaeth

Mae gennym dîm o Fferyllwyr a Thechnegwyr Fferylliaeth sy'n canolbwyntio ar bob agwedd o ofal cleifion sy'n cynnwys rheoli meddyginiaethau. Maent yn gweithio fel rhan o'r dîm y practis i ddatrys materion meddygaeth o ddydd i ddydd, ac ymgynghori â chleifion yn uniongyrchol a'u trin, cysoni meddyginiaethau ar ôl i gleifion gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac ar ôl apwyntiadau cleifion allanol yn ogystal â chefnogi cleifion mewn cartrefi gofal. Mae'r tîm hefyd yn ateb ymholiadau gwybodaeth am feddyginiaethau gan feddygon teulu, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill a chleifion, ac yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad ar gyfer holl staff y practis ynghylch meddyginiaethau. Mae ein tîm fferylliaeth yn cynnwys nifer o Fferyllwyr rhagnodwyr annibynnol sy'n unigolion tra hyfforddedig sy'n gallu gwneud diagnosis a darparu triniaeth ar gyfer cyflyrau cronig a llym o fewn eu cymhwysedd.



## Uwch Ymarferydd Nyrsio

Mae uwch ymarferwyr clinigol yn weithwyr proffesiynol tra hyfforddedig a gallant gynnal adolygiadau cymhleth o gleifion, yn union fel meddygon teulu. Gallant asesu symptomau a chreu darlun o gyflwr claf, trin mân broblemau iechyd, heintiau, mân anafiadau a rhagnodi meddyginiaeth lle bo angen.



## Nyrs sy'n Rhagnodi

Mae Nyrsys Rhagnodi Annibynnol yn nyrsys wedi'u hyfforddi'n arbennig sy'n gallu rhagnodi unrhyw gyffuriau trwyddedig a didrwydded o fewn eu cymhwysedd clinigol.



## Nyrs Practis

Mae'r Nyrs Practis yn darparu gofal uniongyrchol a gofal wedi'i gynllunio i gleifion o bob oedran mewn meddygfeydd mewn amrywiaeth o leoliadau. Bydd y Nyrs Practis yn cynnal ystod o asesiadau nyrsio, gan gynnwys cynorthwyo cleifion â chyflyrau cronig fel Asthma a Diabetes.



## Uwch Ffisiotherapydd

Materion iechyd cyhyrsgerbydol fel poenau cefn, cyhyrau a chymalau yw achos mwyaf cyffredin apwyntiadau dilynol meddygon teulu. Gall ffisiotherapydd ddelio â'r rhan fwyaf ohonynt yn effeithiol heb fod angen gweld y meddyg teulu.

Mae ein Ffisiotherapydd Uwch yn gwneud diagnosis ac yn trin ystod eang o gyflyrau a gall gyfeirio cleifion priodol ar gyfer pelydr-x yn ogystal â rhoi pigiadau a rhagnodi.



## Therapydd Galwedigaethol

Mae therapyddion galwedigaethol yn darparu cefnogaeth ymarferol i rymuso pobl i'w helpu i wella a goresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud y gweithgareddau (neu'r galwedigaethau) sy'n bwysig iddynt.

Mae ganddynt arbenigedd unigryw ac mae eu cwmpas ymarfer eang yn cefnogi tîm y practis i ddatrys amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â bod yn fregus, iechyd meddwl ac addasrwydd i weithio.



## Ymarferydd Gofal Brys / Parafeddyg

Mae ein Ymarferydd Gofal Brys / Parafeddyg yn cyflawni amrywiaeth o rolau ac yn gallu asesu, archwilio a thrin cleifion o bob ystod oedran sydd ag amrywiaeth o gyflyrau llym diwahaniaeth a chronig.

Byddant naill ai'n cynnal ymgynghoriadau ffôn neu wyneb yn wyneb neu ymweliadau cartref.



## Fflebotomydd

Mae fflebotomyddion yn cymryd samplau o waed ar gyfer unrhyw brofion y mae clinigwr yn gofyn amdanynt.



## Cynorthwydd Gofal Iechyd

Gyda chefnogaeth tîm nyrsio'r practis, bydd y Cynorthwydd Gofal Iechyd yn darparu gofal o fewn ffiniau eu rôl ac yn unol â chanllawiau a phrotocolau ymarfer penodol.



## Rheolwr y Practis

Yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau safonol sy'n cadw'r practis i redeg yn llyfn, tra hefyd yn ymateb i unrhyw faterion annisgwyl sy'n codi.



## Derbynnydd

Mae derbynnydd meddygol yn eich cyfarch wrth y ddesg flaen ac yn eich cyfeirio at y clinigwr neu'r clinig cywir. Efallai y bydd angen iddynt ofyn i chi am eich manylion meddygol er mwyn gweithio'n effeithiol.



## Gweinyddwr

Yn cefnogi'r Rheolwr Practis i sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon o'r practis, gan gefnogi darparu gwasanaethau gofal iechyd cychwynnol i boblogaeth cleifion y practis. Cynorthwyo'r Rheolwr Practis i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau cyfredol sy'n llywodraethu darparu gwasanaethau gofal cychwynnol.



## Clerc Presgripsiynau

Dyrannu ail-bresgripsiwn a phresgripsiwn wedi'i baratoi. Casglu ceisiadau ail-bresgripsiwn. Cynnal cofnodion cywir o drafodion dosbarthu. Delio ag ymholiadau presgripsiwn cyffredinol dros y ffôn.